COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 8fed o CHWEFROR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Annwen Daniels, Mel Goch ap Meirion, Mark Thomas, Rory Francis, Ronwen D Roberts a Bedwyr Gwilym

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Bedwyr Gwilym ar ddechrau'r Cyfarfod, etholwyd y Cynghorydd Erwyn Jones i'r Gadair.

10091/02/18 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Mari Rees, Will G. Roberts, Glyn Daniels ac Elin Roberts.

10092/02/18 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Mel Goch ap Meirion	**10100/02/18 – Y Dref Werdd**
Cynghorydd Annwen Daniels	**10100/02/18 – Y Dref Werdd**
Cynghorydd Mark Thomas	**10100/02/18 – Y Dref Werdd**
Cynghorydd Rory Francis	**10100/02/18 – Y Dref Werdd**

10093/02/18 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch Jess Kavanagh-Williams ar ei llwyddiant o gael ei chapio yn ddiweddar am chwarae rygbi dros ei gwlad.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r Cyngor dderbyn pris ar gyfer gwresogydd dwr poeth newydd i'r gegin.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y pris a chaniatáu i'r gwaith gael ei wneud.

Bu i Glerc y Dref son bod angen diweddaru'r Rheolau Sefydlog.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a chytunodd y Cynghorydd Erwyn Jones i gydweithio gyda'r Clerc y Dref ar y diweddariad.

Bu i'r BBC ofyn a wneith cynrychiolydd o'r Cyngor Tref siarad â nhw ynglŷn â gwasanaethau iechyd yn yr ardal.
PENDERFYNIAD: Yn ei absenoldeb, penodwyd y Cadeirydd, y Cynghorydd Bedwyr Gwilym i wneud hyn ond os na fydd hyn yn bosibl penodwyd y Cynghorydd Rory Francis i siarad â'r BBC.

10094/02/18 MATERION YR HEDDLU

Roedd yr SCAH Delyth Edwards yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd ei bod yn eithaf distaw am drosedd ar hyn o bryd. Mae'r sustem CCC yn help mawr i adnabod troseddwyr ac mae'n edrych ymlaen at y sustem fod yn fyw yn swyddfa Clerc y Dref cyn hir.

.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10095/02/18 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ARFEROL 11EG O IONAWR 2018

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio

10096/02/18 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ANARFEROL 25AIN O IONAWR 2018

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Rory Francis a'r Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio

10097/02/18 CYFRIFON I'W TALU

Mr Flag (Baner Genedlaethol)	£	359.04	Rhif Siec.	002543
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	81.90	Rhif Siec.	002544
Dan Hughes (Glanhau matiau diogelwch)	£	1016.20	Rhif Siec.	002545
G L Jones (Playgrounds) Ltd (Caeau chwarae)	£	6696.00	Rhif Siec.	002546
Gŵyl Cerdd Dant Bro Ffestiniog	£	2000.00	Rhif Siec.	002547
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	161.25	Rhif Siec.	002548
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002549
Playquest (Blaendal Cae Manod)	£	2394.00	Rhif Siec.	002550
Cyngor Gwynedd (Goleuadau Nadolig)	£	14015.38	Rhif Siec.	002551
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002552
BT (Ffôn)	£	34.68	Debyd Uniongyrchol	
BT (band eang)	£	42.48	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod. I ofyn i Gyngor Gwynedd am eglurhad o'r cynyddiad mewn costau gosod Goleuadau Nadolig eleni.

10098/02/18 ARIAN I MEWN

M Thomas (Compownd y Parc)	£	5.00

10099/02/18 CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Trwyddedu
Ymgeisydd: Co-operative Food
Co-op
Blaenau Ffestiniog
Cais i amrywio oriau pan trwyddedu gweithgareddau efallai y bydd yn digwydd o ddydd Llun-Sadwrn 08.00-23.00 i dydd Llun- Sadwrn 06.00 23.00
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C18/0079/03/LL
Ymgeisydd: Esgobaeth Wrecsam
Eglwys Santes Mair Magdalen
2-3 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Addasiadau i eglwys bresennol er mwyn creu mynedfa newydd a throsi'r ail lawr er mwyn darparu uned byw
Ei drafod ym Mhwyllgor Mwynderau nos Iau 15fed o Chwefror.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/1192/03/LL
Ymgeisydd: Co-operative Food
Co-op
Blaenau Ffestiniog
Gosod ac amnewid unedau oeri allanol i gefn y safle ynghyd a gwaith peintio'r adeilad
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C17/1085/03/HY
Ymgeisydd: Co-operative Food
Co-op
Blaenau Ffestiniog
Amrywiol arwyddion newydd gan gynnwys arwyddion ffasgia ag arwydd totem wedi eu oleuo
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0853/03/LL
Ymgeisydd: Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0872/03/CR
Ymgeisydd: Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0873/03/LL
Ymgeisydd: Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

6. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/789
Ymgeisydd: Ffion Williams
2 Maes y Coed
Ffestiniog
Dymchwel y garej ar wahân ac adeiladu estyniad deulawr a garej ar yr ochr
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod

10100/02/18 PWYLLGOR MWYNDERAU
DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion – Y Dref Werdd
Cynghorydd Annwen Daniels – Y Dref Werdd
Cynghorydd Mark Thomas – Y Dref Werdd

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 18fed Ionawr 2018

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 18fed IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Ronwen D Roberts
Will G Roberts
Glyn Daniels
Mark Thomas

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:

DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion – Y Dref Werdd
Cynghorydd Annwen Daniels – Y Dref Werdd
Cynghorydd Mark Thomas – Y Dref Werdd

1. Toiledau Diffwys
Trafod ystyried i'r Cyngor Tref eu rhedeg. Tybir bod costau rhedeg y toiledau oddeutu £10,500 y flwyddyn gyda'r Cyngor Tref yn barod yn cyfrannu £4000 tuag at eu rhedeg drwy'r flwyddyn.
Argymhelliad: I dderbyn y wybodaeth parthed y costau rhedeg, i holi Llywodraeth Cymru os oes arian ar gael tuag at redeg toiledau cyhoeddus ar gefnffordd. I drafod hyn ymhellach pan fydd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i law.

2. Maes Parcio Diffwys
Trafod ystyried os yw'r Cyngor Tref yn arwyddo cytundeb cynllun partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd sef Cynllun Parcio 10%. Golygai hyn y gall y Cyngor Tref dderbyn yn oddeutu £3,159.71 y flwyddyn mewn incwm.
Argymhelliad: Cytunwyd i arwyddo'r cytundeb, ac i ddefnyddio'r arian tuag at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus os bydd y Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt.

3. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae. Roedd sawl nam ar y caeau yn ôl yr adroddiadau mis yma, ond cafwyd eglurhad mai gwall wrth y gwblhau'r ffurflenni oedd hyn a bod y gwaith wedi ei gwblhau cyn dyddiad yr adroddiadau.
Argymell: I dderbyn yr adroddiadau ac yr eglurhad am y gwallau.

4. Cae Manod
Mae'r Cyngor Tref wedi cael pris ar gyfer sawl math gwahanol o offer newydd i Gae Manod yn lle'r offer pren sydd wedi pydru erbyn hyn. Bu i'r Cyngor dderbyn amcan bris gan gwmni Playquest am offer wedi ei wneud o blastig wedi ei ailgylchu o £13,100 heb TAW. Mae'r pris yn cynnwys matiau diogelwch a gosod yr offer.
Argymhelliad: I derbyn pris yr offer gan Playquest.

5. Cae Baltic
Trafod pris ar gyfer ffens o amgylch y cae er mwyn i'r Cyngor Tref sicrhau diogelwch y plant wrth chwarae. Mae pedwar cwmni wedi cael cynnig rhoi pris ar gyfer y gwaith hwn ond hyd yn hyn nid oes pris am y gwaith i law.
Argymhelliad: I aros nes bydd pris wedi ei dderbyn.

6. Arwyddion newydd
Trafod dyluniad arwyddion newydd ar gyfer trefeillio, Dim Cŵn a'r Parc Sglefrio
Argymhelliad: I dderbyn dyluniad yr arwyddion.

7. Dref Werdd
DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion
Cynghorydd Annwen Daniels
Cynghorydd Mark Thomas
Cais i'r Cyngor Tref ystyried i ddefnyddio'r Dref Werdd i ddelio gyda rhododendron ar y llwybrau cyhoeddus, yn debyg i'r gwaith gyda llysiau'r dial gwnaethpwyd yn ystod yr Haf.
Argymhelliad: Cytunwyd i gyd weithio a'r Dref Werdd i ddelio a rhododendron ar y llwybrau cyhoeddus.

8. Amseroedd Bysus
Trafod beth all y Cyngor ei wneud i hwyluso amseroedd bysus sydd ar hyn o bryd yn creu problemau mawr yn sgil cwmni wedi colli cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.
Argymhelliad: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt gadarnhau bydd y gwasanaeth yn cael ei ddychwelyd i'r gwasanaeth llawn pan fyddant wedi gosod y cytundebau newydd.

9. Gŵyl Llechi
Cafwyd gwybodaeth bod y Gŵyl Llechi i'w gynnal yn lleol rhwng 14 - 21 Gorffennaf eleni.
Argymhelliad: I dderbyn y wybodaeth

10. Antur Stiniog
Bu i gyfarfod rhwng y Cyngor Tref ac Antur Stiniog i drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Tref yn prynu'r adeilad gael ei ohirio'n ddiweddar. Trefnu dyddiad arall ar gyfer y cyfarfod.
Argymhelliad: I drefnu cwrdd ag Antur Stiniog ar ddechrau cyfarfod Pwyllgor Mwynderau nos Iau 15fed o Chwefror am 7.00 o'r gloch.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion

10101/02/18 PWYLLGOR NADOLIG

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Annwen Daniels yn dilyn cyfarfod dydd Iau 1af Chwefror 2018. Dywedodd i'r pwyllgor ganolbwyntio ar hyn o bryd ar gael llawr sglefrio a rhywbeth addas ar gyfer creu stondinau pren.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym gyrraedd y cyfarfod.

10102/02/18 CAFFI'R PARC

Trafod sut i symud ymlaen i gael tenant newydd i'r Caffi a beth fydd y telerau.

PENDERFYNIAD: Cytunwyd i'r telerau aros yr un fath ac i geisio cael ymgeiswyr drwy greu phosteri a rhoi gwybodaeth ar cyfryngau cymdeithasol.

10103/02/18 CYNGOR GWYNEDD

Ail-fodelu Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cysylltu gyda phob cyngor cymuned a thref fyddai'n cael eu heffeithio gyda phenderfyniad i beidio â rhedeg Clybiau Ieuenctid. Mae ganddynt ddiddordeb clywed beth yw barn / diddordeb ein cyngor mewn sefydlu trefniadau gwahanol ar gyfer rhedeg Clybiau Ieuenctid i'r dyfodol, mewn sefyllfa ble na fyddai Cyngor Gwynedd yn rhedeg Clybiau Ieuenctid.

PENDERFYNIAD: I lythyru Cyngor Gwynedd, teimlir nad yw Cyngor Gwynedd wedi ystyried yr effaith ddifrifol ar bobl ifanc yr ardal hon wrth benderfynu ar eu hopsiynau. Pobl ifanc ar y stryd gyda dim i'w wneud ac yn methu'r cymdeithasu a'r cyfleoedd sydd yn dod o fynychu Clwb Ieuenctid yn rheolaidd. Mae angen hybu parch yn ein pobl ifanc drwy eu hannog i lwyddo. Dylai Cyngor Gwynedd barhau i ddarparu'r un gwasanaeth Clybiau Ieuenctid ac sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn yr ardal hon, a dim cwtogi'r gwasanaeth yma.
Mae'r Cyngor Tref yn barod i wneud cyfraniad hael tuag at y gost o dalu rhent y Clybiau Ieuenctid ond ddim yn barod i gymryd y cyfrifoldeb o gyflogi Arweinydd ac Is-Arweinydd.

10104/02/18 COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Cynnigion Draft ar gyfer newidiadau i ffin wardiau Diffwys a Maenofferen a Chonglywal y Cyngor Tref.
Gofynnir am ein sylwadau parthed y newidiadau hyn sydd ychydig yn wahanol i'r hyn a gytunwyd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y newidiadau

FE AETH Y CYFARFOD YN GAEEDIG I'R CYHOEDD A'R WASG

10105/02/18 CAIS AM GYFETHOLIAD

Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960
Yn unol â Deddf Mynediad i Gyfarfodydd Cyrff Cyhoeddus - Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (1985) Atodlen 12A, rhannau 1.1 a 4.14, mae'r cyhoedd a'r wasg felly wedi'u heithrio o'r rhan hon o'r cyfarfod.

Trafod cais ar gyfer sedd wag ar y Cyngor Tref yn dilyn cyfweliad a'r ymgeisydd ar 25ain o Ionawr 2018.

PENDERFYNIAD: Ei ohirio tan Cyfarfod Arferol mis Mawrth er tegwch i bawb.

AGORWYD Y CYFARFOD I'R CYHOEDD A'R WASG

10106/02/18 HYFFORDDIANT CYNGHORWYR

Mae Cyngor Gwynedd am sefydlu sesiynau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned. Bydd cynghorwyr ar y Cyngor Tref yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun peilot ar gyfer y cynllun hwn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10107/02/18 IECHYD

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10108/02/18 CAEAU CHWARAE
CAE BALTIC

Cafwyd gwybodaeth bod un cwmni wedi rhoi pris ar gyfer y gwaith o osod ffens o amgylch y cae er diogelwch plant yn chwarae.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y pris o £4650 heb TAW gan T D Plant Hire.

10109/02/18 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Glyn Daniels adrodd iddo fynychu cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth parthed trafod creu cwmni lleol rhwng chwe ardal er mwyn prynu Pwerdy Maentwrog er lles yr ardal.

PENDERFYNIAD: Dywedodd y Cynghorwyr Erwyn Jones ac Annwen Daniels eu bod wedi mynychu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod dyfodol y Ganolfan Gymunedol. Y gobaith yw trefnu cyfarfod cyhoeddus i weld beth mae'r gymuned am ei weld yn y Ganolfan Gymunedol.

10110/02/18 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Mae trafod cyllid a'r amser caled sydd i ddod yn y dyfodol yn cymryd blaenoriaeth Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10111/02/18 CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN

Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 8fed MAWRTH 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 8fed MAWRTH 2018
AR Y 1af MAWRTH 2018